CYNGOR LLYFRAU CYMRU
BOOKS COUNCIL of WALES

# Grantiau Cyhoeddi Saesneg

## Canllawiau: Cylchgronau Bach

Cyngor Llyfrau Cymru / Books Council of Wales
Castell Brychan Aberystwyth Ceredigion SY23 2JB
01970 624 151 llyfrau.cymru

An English-language version of this document is also available /
Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg

Dyddiad adolygu: 30 Ebrill 2025

# Canllawiau

## 1 Amcanion

Mae’r cynllun yn cefnogi cyhoeddiadau bach, er mwyn hybu doniau creadigol newydd a hyrwyddo amrywiaeth. Cynigir y grantiau tuag at ddiffygion ariannol a ragwelir.

## 2 Cymhwyster

**Pwy sy'n gymwys i ymgeisio?**

Mae'r cynllun yn agored i gyhoeddwyr cylchgronau sy'n cynnwys ysgrifennu da, newyddiaduraeth o ansawdd uchel, a/neu gelf wreiddiol. Gallai meysydd pwnc posibl gynnwys barddoniaeth, ffuglen, ffeithiol (naill ai golygyddol neu greadigol), y celfyddydau, yr amgylchedd, ac ati. Awgrymiadau yn unig yw'r rhain ac nid yw'r pynciau a gefnogir wedi'u cyfyngu i'r rhain yn unig. Rydym yn rhoi blaenoriaeth arbennig i gyhoeddiadau sy'n cynnig lle i leisiau nad ydynt yn draddodiadol yn cael eu cynrychioli'n ddigonol ym myd cyhoeddi.

Rhaid i'r ymgeisydd fod â chyfrif banc ar wahân ar gyfer y gweithgarwch y ceisir nawdd ar ei gyfer a bod yn barod i ddangos ei ddatganiadau banc i Gyngor Llyfrau Cymru.

**Pa gyhoeddiadau sy'n gymwys?**

Mae'r cynllun wedi'i anelu at cylchgronau bach yng Nghymru sy'n cynnig cyfrwng yn bennaf ar gyfer awduron sy'n byw yng Nghymru.

Gofynnir i gyhoeddwyr drafod eu prosiectau gydag Adran Grantiau Cyngor Llyfrau Cymru cyn iddynt gyflwyno cais.

## 3 Meini Prawf a Blaenoriaethau ar Gyfer Cloriannau Ceisiadau

Cloriennir ceisiadau yn ôl y meini prawf canlynol:

- i ba raddau mae'r prosiect yn cynnig llwyfan ar gyfer ysgrifennu newydd mentrus ac/neu addawol ac/neu ar gyfer lleisiau nad ydynt yn cael eu cynrychioli'n ddigonol mewn print
- trefniadau gwerthu'r ymgeisydd drwy lwybrau masnach arferol, tanysgrifiadau, ac ati
- perthnasedd y cyhoeddiad i fyd cyhoeddi Cymru

## 4 Y Grant

- Cyfanswm y gyllideb flynyddol ar gyfer y cynllun hwn yw oddeutu £7,000.
- Disgwylir grantiau gyfrannu tuag at y gwahaniaeth rhwng costau cyhoeddi cylchgrawn a'r incwm tebygol o werthiant. Gellir cynnig grant i gylchgrawn am flwyddyn gyfan, tuag at fwy nag un rhifyn.

## 5 Sut a Phryd i Ymgeisio

Ystyrir ceisiadau ar gyfer cylchgronau bach unwaith y flwyddyn ym mis Gorffennaf a dyfernir ar gyfer y flwyddyn ariannol ganlynol.

Rhaid i geisiadau gyrraedd y Cyngor Llyfrau erbyn y dyddiad cau a ymddengys ar wefan y Cyngor Llyfrau (fel arfer erbyn mis Mai).

Ar gyfer cylchgronau, rhaid llenwi'r ffurflen gais ar gyfer Cylchgronau Bach [GA SM (2025)], sydd i'w chael o'r cyfeiriad ar ddiwedd y ddogfen hon, a'i chyflwyno ynghyd â'r deunydd ategol priodol.

Yn achos rhai sy'n ymgeisio am y tro cyntaf dylai'r deunydd hwn gynnwys, lle bo modd:

- deipysgrif y rhifyn nesaf
- copïau o'r ddau rifyn blaenorol
- manylion am drefniadau marchnata a dosbarthu
- ffigurau gwerthiant ar gyfer rhifynnau blaenorol
- unrhyw wybodaeth ychwanegol a allai gynorthwyo Cyngor Llyfrau Cymru i ddyfarnu'n deg

Ar gyfer cyhoeddiadau newydd a rhai sy'n sefydlu, cynhwyswch gymaint o ddata gwerthiant gwirioneddol â phosibl, ynghyd â ffigurau gwerthiant a ragwelir.

Dylai'r sawl sydd eisoes yn derbyn grant gyflwyno manylion am drefniadau marchnata a dosbarthu a ffigurau gwerthiant ar gyfer rhifynnau blaenorol.

## 6 Talu Grantiau

- ffurflen hawlio wedi'i llenwi [CF SM (2025)]
- pedwar copi cyfarch o'r llyfr/cylchgrawn neu mynediad am ddim i faterion digidol os yw'r rhain y tu ôl i wal dalu.

Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i newid swm y grant a delir os yw'r manylion ar y ffurflen hawlio yn wahanol iawn i'r wybodaeth a gyflwynwyd yn y cais gwreiddiol.

Rhaid i chi hawlio taliad o fewn 3 mis i'r dyddiad cyhoeddi neu ddyddiad y gweithgareddau a nodir yn eich cais am gyllid. Bydd cyllid na chaiff ei hawlio o fewn 3 mis i'w gyhoeddi yn cael ei fforffedu, oni bai y trefnir yn wahanol gyda'r Adran Datblygu Cyhoeddi.

## 7 Monitro a Gwerthuso'r Gwaith a Gefnogwyd

Bydd Cyngor Llyfrau Cymru yn gofyn i gyhoeddwyr ddarparu gwybodaeth reolaidd ynglŷn â gwerthiant ar gyfer pob teitl a gefnogir gan y cynllun hwn.

# Ceir ffurflenni cais a gwybodaeth bellach oddi wrth:

Adran Datblygu Cyhoeddi
Cyngor Llyfrau Cymru
Castell Brychan
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 2JB

Ffôn: 01970 629554

E-bost: english.grants@books.wales